Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd Penrhyn ar **24 Mehefin am 6.30 yr hwyr.**

**PRESENNOL:-** Ei Deilyngdod y Maer Cyng. Gareth Parry, Cyng. Medwyn Hughes (Dirprwy Faer), Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. John Wyn Williams, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Steve Bell, Cyng. Beverly Jones, Cyng Elin Walker-Jones, Cyng. Huw Wyn Jones (Gadawodd am 19:05), Cyng. Nigel Pickavance

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos F. Jones, (Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig), a Sioned Jones (Cyfieithydd), 6 aelod o'r cyhoedd a chadeirydd Cyfeillion Pier Garth Bangor

**26/24 YMDDIHEURIADAU;**

Cyng. Lisa Toth, Cyng. Gareth Roberts, Cyng Simon Hibbs

**27/24 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL.**

Dim.

**28/24 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD – BANGOR (GARTH) CIC.**

Cafwyd cyflwyniad gan gadeirydd Cyfeillion Pier Garth Bangor.

**29/24 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 3 MEHEFIN 2024.**

Roedd cofnodion cyfarfod y Cyngor ar y 3ydd o Fehefin wedi eu dosbarthu ymlaen llaw i'r Cynghorwyr.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

**30/24 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG.**

*Dosbarthwyd yr Adroddiad cyn y cyfarfod*

Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod Prifysgol Bangor ac Eglwys Gadeiriol Bangor bellach wedi sefydlu gweithgorau i archwilio sut orau i wneud y mwyaf o Fangor 1500. Roedd wedi cynnig mynychu'r ddau grŵp hyn yn rheolaidd i sicrhau cyfathrebu rhyngddynt a bod gwaith grŵp Cyngor y Ddinas yn dal i lifo. Cwblhawyd yr arsyllfa newydd ar ben draw'r Pier yr wythnos diwethaf. Trefnwyd y prosiect hwn gan staff Cyngor Dinas Bangor ac fe'i hariannwyd gan Gyfeillion Pier y Garth. Dyma enghraifft arall o'r berthynas waith ragorol rhwng y ddau gorff.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig.

**31/24 DERBYN YR ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL.**

*Roedd yr Adroddiad Archwilio Mewnol wedi'i gylchredeg ymlaen llaw i'r Aelodau cyn y cyfarfod.*

Roedd y Pwyllgor Cyllid wedi craffu ar yr archwiliad mewnol cyn cyfarfod y Cyngor llawn a chyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw eu hargymhellion;

Yn dilyn yr archwiliad mewnol blynyddol a gwblhawyd gan gynrychiolwyr Cyngor Gwynedd, derbyniwyd yr Adroddiad Archwilio Mewnol. Nid oedd yr Adroddiad yn cynnwys unrhyw sylwadau nac argymhellion negyddol. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Ddinas fod y tri mân sylw a gynhwyswyd yn adroddiad y flwyddyn flaenorol wedi'u gweithredu, fel arall byddent yn aros ar yr adroddiad hwn.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r archwiliad mewnol.

**32/24 CYMERADWYO'R DATGANIAD O GYFRIFON A'R FFURFLEN FLYNYDDOL.**

*Roedd y Datganiad Blynyddol a'r Ffurflen Flynyddol wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau cyn y cyfarfod.*
Bu'r Pwyllgor Cyllid yn craffu ar y cyfrifon a'r ffurflen flynyddol cyn cyfarfod y Cyngor llawn a chafwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor;
Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y dogfennau hyn wedi'u paratoi ar gyfer yr archwiliad blynyddol a'u bod wedi'u dilysu gan yr archwilydd.
**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r cyfrifon a'r ffurflen flynyddol.

**33/24 CYMERADWYO DOGFENNAU'R CYNGOR**

**i ) Strategaeth Fuddsoddi.**

**ii) Asesiad Risg Ariannol.**

*Roedd y dogfennau isod wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau cyn y cyfarfod.*
Bu'r Pwyllgor Cyllid yn craffu ar y strategaeth fuddsoddi cyn cyfarfod y Cyngor llawn a chyflwynodd y Cadeirydd eu hargymhellion;

**i) Strategaeth Fuddsoddi 2024 -2025**
Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Strategaeth Fuddsoddi wedi'i diweddaru i gynnwys manylion cwmni buddsoddi'r Cyngor, a benodwyd yn gynharach yn y flwyddyn.

Penderfynwyd **:** argymell y Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2024-2025 i'r Cyngor.

**ii) Asesiad Risg Ariannol 2024-2025**
Dywedodd y Pwyllgor fod dogfen yr Asesiad Risg Ariannol wedi'i diwygio i gynnwys cyfeiriadau at y Pwyllgor Cyllid, a sefydlwyd yn ystod blwyddyn ddinesig 2023-2024.

Penderfynwyd: argymell yr Asesiad Risg Ariannol ar gyfer 2024-2025 i'r Cyngor gydag un mân newid gair i bwynt 3(e).

**i) PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r strategaeth fuddsoddi.
**ii) PENDERFYNWYD:** cymeradwyo argymhelliad y pwyllgor cyllid gydag un mân newid gair

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r asesiad risg ariannol gydag un newid bychan.

**34/24 CYMERADWYO'R CYSYNIAD O BRYDLESU PIER GARTH I CIC**

Yn dilyn trafodaeth fer,

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r cysyniad o brydlesu Pier Garth i CIC

**35/24 CANIATÁU NANTPORTH CIC I WNEUD GWELLIANNAU I STADIWM NANTPORTH.**

Yn dilyn trafodaeth fer.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r CIC i wneud gwelliannau i'r stadiwm.

**35/24 CYMERADWYO CWRS HYFFORDDI LLYTHRENNEDD CARBON.**

Awgrymwyd bod cynghorwyr yn mynychu cwrs llythrennedd carbon.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo cwrs llythrennedd carbon.

**36/24 TRAFOD Y GYLLIDEB AR GYFER:**

**i ) Noson Tân Gwyllt.**

**ii) Cracer Nadolig.**

Cafodd y Pwyllgor Cyllid gyfarfod cyn cyfarfod y Cyngor llawn a gwnaed yr argymhellion canlynol gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid;

i) Oherwydd bod gwaith amddiffynfeydd morol yn parhau ar Lôn Glan y Môr, adroddwyd na fyddai'n bosibl cynnal yr arddangosfa Tân Gwyllt draddodiadol yn y lleoliad hwnnw. Archwiliwyd lleoliadau eraill gan gynnwys y Brifysgol a Nantporth ond nid oedd y naill na'r llall yn dderbyniol am amryw o resymau. O'r herwydd roedd yn debygol y byddai angen canslo digwyddiad eleni.
**PENDERFYNWYD:** dyrannu £5,000 i Noson Tân Gwyllt a pharhau i archwilio posibiliadau.

ii) Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod £10,000 wedi'i roi y llynedd i'r digwyddiad Cracer Nadolig. Yn anffodus, nid oedd yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant hwn, sef y byddai derbynnydd y grant, yn dilyn y digwyddiad, yn rhoi adroddiad i'r Cyngor ar yr incwm a'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r Cracer, wedi'u dilyn er gwaethaf sawl cyfathrebiad.
Er y pwysleisiwyd nad oedd y Pwyllgor yn pryderu am unrhyw ddrwgweithredu, mynegodd bryder nad oedd yn bosibl craffu a oedd y grant arian cyhoeddus hwn yn rhoi gwerth am arian i bobl Bangor. Yn yr un modd, roedd yn siomedig na chydymffurfiwyd â thelerau'r grant, ac nad ymatebwyd i ymdrechion cyfathrebu.
**PENDERFYNWYD:** Ni fyddai'r Pwyllgor yn argymell bod y Cyngor yn dyfarnu grant i'r Cracer Nadolig eleni. Fodd bynnag, mae'n argymell bod y Cyngor yn dyrannu £10,000 ar gyfer digwyddiad Nadolig a gynhelir yn fewnol neu gan sefydliad arall ond mae'r Cyngor yn parhau i geisio cysylltu â threfnwyr craceri Nadolig.

**37/24 CYMERADWYO CYNNIG GWOBRAU ARWYR LLEOL.**

*Roedd y cynnig wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod.*

Yn dilyn trafodaeth fer awgrymodd y cyngor rai mân newidiadau i'r cynnig.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r cynnig i gael gwobrau arwyr lleol gyda'r mân newidiadau.

**38/24 CEISIADAU CYNLLUNIO:**

**i)** **C24/0231/11/TC** – 23 Ffordd y Coleg – Cais i ddefnyddio eiddo fel Tŷ Amlfeddiannaeth.

**Oherwydd y ganran o Dai Amlfeddiannaeth yn yr ardal, nid oedd y cyngor yn cefnogi'r cais hwn.**

**ii)** **C24/0424/11/LL –** Pobdy , Lon Pobty , Bangor - Newid swyddfa llawr gwaelod i glinig pediatregydd a ffisiotherapydd.
*Datganodd y Cyng. Elin Walker-Jones a'r Cyng. John Wynne Jones fuddiant personol ac felly ni chawsant bleidleisio ar hwn.*

**Dim gwrthwynebiad.**

**iii)** **C24/0436/11/LL –** Hen Ysgol Fabanod Coed Mawr – Cynnig i godi 10 tŷ fforddiadwy.
**Dim gwrthwynebiad.**

**iv)** **C24/0457/11/YA** – Nantporth, Ffordd Caergybi – codi adeilad ar gyfer storio peiriannau a phorthiant da byw.

**Dim gwrthwynebiad.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 8:30pm**

DIPRWY CYFARWYDDWR DINESIG – Llinos Fôn Jones – DEPUTY CITY DIRECTOR